

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer 9/1/2023

Presennol: Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies Is-Gadeirydd) Emyr Jones, Gwyn Roberts, Dafydd Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eleri Jones a Tylly Roberts.
2. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 7/11/2022.
4. **Materion y Clerc:** Clirffordd – derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd (Marie Lyn Williams) fod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi dod i ben a bod ymgynghoriad cyfeiriol gan yr Adran Gyfraith yn digwydd ar hyn o bryd.

Oherwydd pryder y cyhoedd am yr oedi ac anghyfleustra posib os bydd caniatâd i'r trên bach groesi'r ffordd, gofynnwyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans geisio trefnu cyfarfod safle gydag Adran y Priffyrdd gan wahodd trethdalwyr y Gymuned a pherchnogion y maes carafanau i ymuno yn y cyfarfod.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans. Dywedodd fod Cyngor Gwynedd wedi cael peth trafferthion cysylltu ym mater torri'r gwrych wrth y Clwb Hwyllo ond bod y mater yn parhau i dderbyn sylw'r swyddogion.

Safle ailgylchu Llangywer: Ar hyn o bryd mae'r cyfrifoldeb yn syrthio rhwng Cyngor Gwynedd a Parc Cenedlaethol Eryri. Cytunwyd y byddai'n well i Gyngor Gwynedd geisio cael hyd i safleoedd allan o'r golwg yng Nghwm y Glyn a fyny am Tŷ Cerrig.

Nodwyd fod sbwriel wrth maes bach Pentre Piod.

6. Ceisiadau Cynllunio:

- **NP5/70/L4B** Bryniau Golau, Llangywer: Newidiadau i'r "Ystafell Gemau" presennol, i gynnwys dymchwel estyniadau, amnewid talcen do a ffenestr to llusern gyda tho brig newydd a thalcenni gwydr – cymeradwywyd.
- **NP5/70/LB83F a NP5/70/83E** Ffynnon Gywer – codi sied amaethyddol. Nodwyd bod y sied yn fawr ond bod addewid iddi gael ei sgrinio gan lystyfiant. Cymeradwywyd.

7. **MEWNOL:** Torri gwair y fynwent: ystyriwyd tendrau ar gyfer 2003, 2004, 2005. Cymharwyd 3 ymgais yn fanwl a chytunwyd i gynnig y gwaith i Sion W Jones, Cae Gadlas, Y Bala.
8. **MEWNOL:** Pwyllgor Cyllid- gweler Cofnodion ar wahân. Cytunwyd i ofyn am Braesept o £4,500 am y flwyddyn 2023-24.
9. **Materion ariannol misol:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol a cytunwyd i dalu am
 - Swyddfa + Stampiau £330

- Gwefan £250
- Cyngor Cymuned Llanuwchllyn 1 pecyn o bapur £4.88
- I W Hughes – torri gwrychoedd y fynwent £84 (cynnwys TAW)

Nodwyd y cafwyd caniatâd y Cyngorwyr cyn y cyfarfod i dalu am dorri gwair ar frys (£900), ac am hysbyseb Cytundeb Torri Gwair yn “Pethe Penllyn” (£19.37).

10. **Arolwg o gartrefi lleol** – Agenda’r cyfarfod nesaf

11. Partneriaeth Penllyn: dim adroddiad y tro hwn

12. Gohebiaeth:

- Parc Cenedlaethol Eryri : Arolwg Strategaeth Hybu’r Iaith Gymraeg
- Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar yr iaith Gymraeg

Cytunwyd i ddilyn barn is-bwyllgor Cyngor Cymuned Llanuwchllyn .

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13/3/22